



Delyth Jewell AS/MS  
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Cysylltiadau Rhyngwladol a  
Chwaraeon

22 Rhagfyr 2021

Annwyl Delyth,

Diolch am eich llythyr yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am Oriol Genedlaethol y Celfyddydau Cyfoes ac Amgueddfa Bêl-droed Cymru ar gyfer y Pwyllgor.

#### Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol

Mae'r Cytundeb Cydweithio yn ailgadarnhau'r ymrwymiad i ddatblygu ymhellach y cynigion ar gyfer Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol, fel y cyfeirir ati yn y Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddarau.

Mae'r prosiect wedi'i arwain gan Grŵp Llywio sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru.

Yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol yn 2018 penderfynodd y Llywodraeth flaenorol y dylid dilyn 'dull wedi'i ffedereiddio' gyda lleoliadau ar draws Cymru. Awgrymodd astudiaeth ddichonoldeb arall a gynhaliwyd gan y Swyddfa Wledig ar gyfer Pensaernïaeth mai model gwasgaredig gydag 8-10 safle yn cynnig mynediad lleol i gasgliadau pwrpasol neu deithiol fyddai'r model cyflenwi a ffeirir ar gyfer yr Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol. Un canlyniad allweddol fyddai darparu mynediad lleol i'r casgliad cenedlaethol o gelf gyfoes a ddelir gan Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae gwaith manwl pellach ar ddatblygu'r model dosbarthedig wedi'i wneud ac mae wedi nodi gofyniad am fuddsoddiad cyfalaf untro o tua £5m dros 4 blynedd, ynghyd â gofyniad refeniw parhaus posibl. Bydd y gwaith hwn yn llywio'r achos busnes sy'n cael ei ddatblygu gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru, y disgwyliwn ei dderbyn i'w ystyried ym mis Mawrth 2022. Bydd cyngor i Weinidogion ar gyllid ar gyfer y prosiect yn dibynnu ar achos busnes cadarn a chymhellol sy'n dangos gwerth am arian.

Mae gwaith cychwynnol i ddigideiddio'r casgliad a gedwir gan Amgueddfa Cymru, sy'n gam cyntaf sylfaenol tuag at sicrhau bod y casgliadau ar gael i orielau, yn mynd rhagddo'n dda. Defnyddiwyd yr asedau digidol hyn mewn nifer o ffyrdd arloesol yn ystod y pandemig i gynyddu mynediad y cyhoedd i'r casgliad, i ddiddanu ac addysgu, o dan faner [Celf ar y Cyd](#).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales](mailto:Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er enghraifft – cylchgrawn ar-lein sy'n cynnwys lleisiau amrywiol ([Cynfas](#)); gwefan gyfranogol lle gall pobl guradu arddangosion o'r casgliad cenedlaethol ([Celf 100](#)); a staff y GIG yn dewis gwaith celf i'w atgynhyrchu mewn fformatau mawr i'w harddangos mewn ysbytai maes a chanolfannau brechu ([Celf mewn Ysbytai](#)).

### Amgueddfa Bêl-droed Cymru

Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan Grŵp Llywio dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr Amgueddfa Cymru, Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru.

Derbyniodd y Grŵp Llywio argymhelliad y Cynllun Busnes i ganolbwyntio ar wneud y defnydd gorau posibl o le yn yr adeilad presennol. Bydd hyn yn gofyn am newidiadau i'r adeilad, er mwyn i arddangosfeydd cyfredol gael eu had-drefnu a'u storio oddi ar y safle ar gyfer casgliadau wrth gefn. Mae angen gwaith adeiladu i ddod â'r adeilad i'r fanyleb ar gyfer casgliadau amgueddfeydd a disgwylir i'r gwaith ddechrau ym mis Ebrill 2022.

Penodwyd Haley Sharpe Design a Purcell Architects ym mis Mehefin i ddatblygu cynigion a chostau dylunio manwl ar gyfer y prosiect, i ddechrau hyd at RIBA cam 3 gyda pharhad ar gyfer gweddill y prosiect yn amodol ar gydsynio. Crëwyd cynllun cyflawni amlinellol, sy'n anelu at gwblhau'r cam dylunio erbyn mis Medi 2022 ac, os caiff ei gymeradwyo, fwrw ymlaen â'r gwaith adeiladu gyda'r bwriad o agor yr Amgueddfa Bêl-droed ym mis Ebrill 2025.

O ran tîm prosiect yr Amgueddfa, penodwyd curadur pêl-droed a rheolwr prosiect penodedig ym mis Mawrth ac Ebrill 2021 yn y drefn honno. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gyda 529 o ymatebion o bob rhan o Gymru a thrafodaethau gyda gweithwyr addysg proffesiynol. Bwriedir ymgynghori'n fanylach â grwpiau rhanddeiliaid ar gyfer camau 2, 3 a 4 RIBA i lywio siâp a chynnwys yr amgueddfa sydd wedi'i hailwampio.

Mae'r Grŵp Llywio wedi dweud bod angen staff ychwanegol i sicrhau bod y prosiect yn ymgysylltu ledled Cymru gyfan ac yn ddwyieithog, ac rydym wrthi'n ystyried cais am gyllid ar gyfer cefnogi'r gwaith yma. Bydd cyngor i Weinidogion ar gyllid ar gyfer y prosiect yn dibynnu ar achos busnes cadarn a chymhellol, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2022, sy'n dangos gwerth am arian.

### Treftadaeth Chwaraeon

Mae'r datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan fy rhagflaenydd hefyd yn cyfeirio at waith y panel arbenigol ar gyfer Treftadaeth Chwaraeon yng Nghymru ac mae'n bleser gennyf adrodd bod hyn wedi parhau. Mae Rhwydwaith Treftadaeth Chwaraeon Cymru wedi'i sefydlu ac mae'n cyfarfod bob 3 mis. Daeth yr ymgynghoriad ar Fframwaith Cenedlaethol o Dreftadaeth Chwaraeon Cymru i ben ym mis Hydref. Bydd y fframwaith terfynol yn cael ei gyhoeddi yn 2022 ynghyd â chynllun gweithredu ar gyfer cyflawni.

Yn gywir



**Dawn Bowden AS/MS**

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip

Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip